

Rhestr wirio symud i mewn

Croeso i'ch cartref newydd!

Cofiwch am y canlynol pan fyddwch yn symud i le newydd, a thiciwch y blychau wrth i chi eu gwneud!



Ydych chi wedi cofio...	Beth i'w wneud...	Wedi gwneud?
Rhentu Doeth Cymru - cadarnhewch fod eich landlord yn gofrestredig a bod y person sy'n gosod ac yn rheoli'r eiddo yn drwyddedig gyda Rhentu Doeth Cymru.	Gallwch wirio hyn drwy ddefnyddio gwefan Rhentu Doeth Cymru http://www.rhentudoeth.llyw.cymru/cym/check-register/	
Contract tenantiaeth a thystysgrif Diogelwch Nwy – oes gennych chi gopi?	Gwnewch yn siŵr fod gennych gopi; holwch eich landlord/asiantaeth gosod tai am hyn os nad yw wedi'i roi i chi. Mae hyn yn bwysig!	
Bond/Blaendal – Ydych chi'n gwybod manylion eich Blaendal a manylion diogelu'ch bond?	Darllenwch eich contract tenantiaeth a'ch e-byst am fanylion. Os nad ydych yn siŵr, gofynnwch i'ch landlord neu cysylltwch â'ch Gwasanaeth Blaendal Tenantiaeth. Cadwch fanylion eich Blaendal yn ddiogel, bydd eu hangen arnoch wrth symud allan.	
Rhestr Offer – Ydych chi wedi'i llenwi'n ofalus?	Sicrhewch fod popeth yn ei le cyn ei llofnodi. Rhewch wybod i'r landlord/asiant yn ysgrifenedig am unrhyw atgyweirio sydd angen ei wneud. Tynnwch luniau fel prawf o gyflwr yr eiddo cyn symud eich eiddo i mewn.	
Nwy, trydan a dŵr – Ydych chi wedi cysylltu â'ch cyflenwyr? Dŵr Cymru -	Cysylltwch â'r cwmnïau cyfleustodau a rhowch ddarlleniadau mesurydd iddynt. Rhewch enw pawb yn y tŷ ar filiau. 0800 052 0145 www.dwrcymru.com . Manylion eraill ar fil diweddar.	
Iechyd a diogelwch – a ydych chi wedi cofrestru gyda'ch meddyg teulu lleol a gwirio bod gennych larymau tân sy'n gweithio?	Cofrestrwch gyda'ch meddyg teulu lleol. Gofalwch fod gennych synwryddion mwg a charbon monocsid sy'n gweithio. Cysylltwch â'r Gwasanaeth Tân am wiriad risg tân yn y cartref AM DDIM ar 0800 169 1234	
Trwydded teledu – Oes gennych chi un?	Prynwch un yn www.tvlicensing.co.uk . Os ydych chi'n rhannu'r eiddo â phobl eraill dim ond un drwydded sydd ei hangen arnoch. Rhannwch y gost rhwng pawb.	
Y Dreth Gyngor – Oes gennych dystysgrif eithrio'r Dreth Gyngor?	Gofynnwch i'r Brifysgol amdani. Anfonwch i Gyngor Sir Caerdydd, Adran Y Dreth Gyngor, Blwch SP 9000, Caerdydd, CF10 3WD.	
Ailgylchu a Sbwriel – Ydych chi'n gwybod eich diwrnod gwastraff ac ailgylchu? <i>Byddwch yn gyfrifol am eich sbwriel neu gallwch wynebu Hysbysiad Tâl Cosb am £100 gan Gyngor Caerdydd</i>	Cadarnhewch eich diwrnod casglu yn www.cardiffdigs.co.uk/cy/gwastraff-ac-ailgylchu neu lawrlwythwch yr app "Cardiff Gov" i gael negeseuon atgoffa am ddim – cesglir biniau gwahanol ar wythnosau gwahanol! Rhewch ailgylchu / sbwriel ar y palmant y tu allan i'ch eiddo erbyn 6am ar y diwrnod casglu (ond nid cyn 4.30pm y diwrnod cynt)	
Cymdogion – Ydych chi'n eu hadnabod? Cyflwynwch eich hun!	Mae dweud helo yn ffordd dda o ddod i adnabod eich cymuned. Peidiwch â bod yn swnllyd.	
Diogelwch – Ydych chi wedi diogelu pethau gwerthfawr?	Cofrestrwch bethau gwerthfawr yn www.immobilise.com a nodwch nhw ag enw a chyfeiriad cartref gyda beiro uwchfioled.	
Parcio – Oes gennych chi drwydded parcio? Neu arbedwch arian a'r blaned drwy deithio'n llesol!	Evch i www.caerdydd.gov.uk/parcio i ddysgu a oes angen un arnoch. Neu gadewch y car gartref! Mae'n ddigon hawdd cerdded o amgylch Caerdydd. Mae'n hawdd teithio yng Nghaerdydd ar y bws, ar droed neu ar y beic.	